# Cydymffurfio â gofynion moesegol, cyfreithiol, rheoliadol a chodau ymarfer ym maes marchnata digidol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn rhan o faes cymhwysedd marchnata digidol sy'n gysylltiedig ag egwyddorion a damcaniaethau marchnata digidol. Mae'n ymwneud â chydymffurfio â gofynion moesegol, cyfreithiol a rheoliadol ym maes marchnata digidol. Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr marchnata digidol proffesiynol sy'n gorfod cydymffurfio â gofynion moesegol, cyfreithiol, rheoliadol a chodau ymarfer ym maes marchnata digidol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. coladu polisïau, gweithdrefnau a chodau ymarfer eich sefydliad mewn perthynas â chynnwys, gweithgareddau ac allbynnau marchnata digidol
2. cydnabod y cosbau, y goblygiadau a'r niwed i enw da os na lynir wrth godau ymarfer cyfreithiol, moesegol, rheoliadol a chodau ymarfer
3. gwirio cynnwys, gweithgareddau ac allbynnau marchnata yn erbyn yr holl ofynion cyfreithiol a rheoliadol
4. sicrhau bod y trwyddedau neu'r caniatâd angenrheidiol i ddefnyddio deunydd hawlfraint ar waith
5. gofyn am gyngor arbenigol pan fo angen i sicrhau bod y deunydd marchnata yn cydymffurfio'n gyfreithiol neu'n cyd-fynd â chodau ymarfer a moeseg
6. monitro gweithgareddau cyfryngau digidol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus
7. cadw gwybodaeth sensitif yn gyfrinachol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. strwythur eang y system gyfreithiol yn y DU yn ogystal â gofynion cyfreithiol penodol, rolau cyfreithiol a therminoleg yn y wlad yr ydych yn gweithio ynddi
2. y polisïau a'r canllawiau cyfredol ar gyfer sianeli cyfryngau cymdeithasol
3. gofynion perthnasol deddfwriaeth a rheoliadau cyfredol sy'n ymwneud â diogelu data
4. y gofynion a'r codau ymarfer moesegol, cyfreithiol, rheoliadol perthnasol mewn perthynas â chynnwys, gweithgareddau ac allbynnau marchnata digidol
5. rheolau moeseg mewn perthynas ag ymgyrchoedd marchnata digidol
6. y ddeddfwriaeth berthnasol mewn perthynas â defnyddio data defnyddwyr, ymgyrchoedd marchnata, ymwybyddiaeth o frand ac ymgyrchoedd hyrwyddo
7. ffynonellau gwybodaeth a chyngor arbenigol, a phryd a sut i gael gafael arnynt
8. cosbau torri hawlfraint, difenwi a thorri codau ymddygiad
9. pwysigrwydd monitro gweithgareddau a sylwadau ar y cyfryngau digidol

## Sgiliau

- dadansoddol
- trefnus
- systematig
- gonestrwydd
- datrys problemau

INSDGM003

Cydymffurfio â gofynion moesegol, cyfreithiol, rheoliadol a chodau ymarfer ym maes marchnata digidol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills CFA |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 03 Maw 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Instructus |
| **RCU gwreiddiol** | N/A |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Swyddog Marchnata Digidol Gweithredol, Rheolwr Marchnata Digidol, Cynorthwyydd Marchnata Digidol, Cydlynydd Marchnata Digidol, Arweinydd Marchnata Digidol, Galwedigaethau Marchnata Digidol, Swyddog Marchnata Digidol, Arbenigwr Marchnata Digidol |
| **Cyfres/Set** | Marchnata Digidol |
| **Geiriau Allweddol** | cyfreithiol, rheoliadol, cydymffurfio, marchnata digidol, cynnwys marchnata, ymgyrchoedd marchnata, ymgyrchoedd ebost, platfformau cyfryngau cymdeithasol, ymgyrchoedd hysbysebu arddangos, diogelu data, moeseg, côd ymarfer, cyfrinachedd, ysgrifennu copi |